

Ysgol Gymuned Penisarwaun



Adroddiad Llawn y
Llywodraethwyr i Rien
Medi 2014 - Gorffennaf 2015

NEGES GAN Y CADEIRYDD – MRS GWENLLIAN CARR

Braint yw cael ysgrifennu'r cyflwyniad i adroddiad blynyddol Ysgol Gymuned Penisarwaun unwaith eto leni, a braf yw llongyfarch yr ysgol, y staff a'r plant ar flwyddyn lwyddiannus arall.

Braf hefyd yw gweld plant y pentref yn gwneud cynnydd addysgol a chymdeithasol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan eu paratoi'n arbennig o dda ar gyfer y bennod nesaf yn eu bywydau. Mae'r cynnydd a wneir gan ein holl ddisgyblion yn destun balchder i ni fel tîm ac fel cymuned, ac yn ddi-os, mae plant Ysgol Penisarwaun yn cael y cychwyn gorau bosibl i'w bywydau yn yr ysgol.

Bu'n flwyddyn brysur arall, gyda nifer o lwyddiannau yn y dosbarth, ar y meysydd chwarae ac mewn gweithgareddau o bob math, a llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu llwyddiant.

Mae'n parhau yn gyfnod heriol iawn yn economaidd yma yng Nghymru, ac mae'r pwysau ar fyd addysg yn gynyddol anodd, ac mae'r tîm yma yn yr ysgol yn ymwybodol iawn o hyn. Mae'r Llywodraethwyr yn cynllunio'n ofalus a darbodus, gan gefnogi'r Pennaeth a'r staff er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnig yr addysg a'r cyfleoedd gorau i blant y dalgylch, a hynny gan sicrhau gwerth am arian.

Nid yw'r blynyddoedd nesaf yn mynd i fod yn hawdd i'r sector cyhoeddus, ond byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i wneud ein gorau er lles disgyblion Ysgol Penisarwaun drwy'r amser. Mae'r ysgol yng nghalon ein cymuned, a'i disgyblion yw dyfodol ein pentref.

Y CORFF LLYWODRAETHOL

	Yn Cynrychioli	Daw Tymor i Ben
Mrs Gwenllian Carr	Cadeirydd - Cyfethol	Awst 2018
Mr Christian Branch	<u>Is-Gadeirydd</u> , Rhieni	Awst 2015
Mrs Elizabeth Jones	Clerc	Awst 2016
Mr Steven Walker	Cyfetholwyd	Awst 2016
Mrs Carolyn Roberts	Awdurdod Addysg Leol	Awst 2012
Miss Phyllis Ellis	Cyngor Cymuned	Awst 2016
Mrs Ellen Baines	Rhieni	Awst 2016
Mr Gareth Fôn Griffiths	Awdurdod Addysg Leol	Awst 2015
Mrs Carol Jones	Athrawon	Awst 2016
Mr Llŷr Rees	Pennaeth	Awst 2015

Cynhelir etholiad arall ar gyfer rhiant - lywodraethwr yn Awst 2015

CYFEIRIAD Y CADEIRYDD A'R CLERC

Mrs Gwenllian Herd, Cartref, Penisarwaun, Caernarfon

Mrs Elizabeth Jones, 17 Bryn- Tirion, Penisarwaun, Caernarfon

STAFFIO 2014-15

Pennaeth		
+ Athro Bl.5/6	-	Mr Llŷr Rees
Athrawes Bl.3/4	-	Miss Lowri Williams
Athrawes Cyfnod Sylfaen	-	Mrs Carol Ann Jones
Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen	-	Miss Sharon Jones
Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen	-	Miss Rachel Hanks

Cymhorthydd ADY	-	Miss Megan Jones
Ysgrifenyddes	-	Mrs Elizabeth Jones
Cogyddes	-	Ms Carolyn Jones
Gofalwraig	-	Mr Huw Williams
Goruchwylwraig Amser Cinio	-	Mrs Carol Porter

TREFNIANT Y DOSBARTHIAU MEDI 2014

Athrawes	M	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
CAJ	5	9	5	4					23
LAW					6	7			13
LLR							7	9	16
									52

Niferoedd disgyblion:

Llawm amser	-47
Meithrin	- 5
Cyfanswm	-52

Y SEFYLLFA IEITHYDDOL

Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Gymuned Penisarwaun ac mae'r staff a'r disgyblion yn gweithio'n galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol. Ni ddylai'r rhieni sydd â phlant yn rhan o sefyllfa ddwyieithog am y tro cyntaf deimlo dan fygythiad na theimlo nad ydych chi'n perthyn. Efallai nad ydych chi'n siarad Cymraeg (er bod llawer o rieni'n penderfynu dysgu'r iaith), ond gobeithiwn y byddwch yn parchu'r awyrgylch ieithyddol sy'n bodoli yma, awyrgylch sy'n cyfoethogi cymaint ym mhob ystyr ar brofiadau dysgu'r plant. Parchwn eich hawl chi i ddefnyddio'r iaith a ddewisir gennych, ac i'r diben hwnnw, bydd pob gohebiaeth o'r ysgol yn ddwyieithog.

DYDDIADAU PWYSIG AR GYFER 2014-15

TYMOR:

Hydref 2014	1 Medi 2014— 19 Rhagfyr 2014
Gwanwyn 2015	5 Ionawr 2015—27 Mawrth 2015
Haf 2015	13 Ebrill 2015 — 17 Gorffennaf 2015

GWYLIAU:

27—31 Hydref 2014	Hanner Tymor
22 Rhagfyr 2014—02 Ionawr 2015	Gwyliau'r Nadolig
16—20 Chwefror 2015	Hanner Tymor
30 Mawrth — 10 Ebrill 2015	Gwyliau'r Pasg
04 Mai 2015	Calan Mai
25-29 Mai 2015	Hanner Tymor
20 Gorffennaf—31 Awst 2015	Gwyliau'r Haf

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Mawrth, 1af o Fedi, 2015 i staff, a dydd Mercher, 2il o Fedi 2015 i ddisgyblion.

PRESENOLDEB

Mae presenoldeb y plant yn yr ysgol yn gyson dda. Dyma'r canrannau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf:-

Tymor yr Hydref 2014	-	95.6 %
Tymor y Gwanwyn 2015	-	98.6%
Tymor yr Haf 2015	-	95.9 %
Cymedr 2014-15	-	96.5 %
Absenoldebau awdurdodedig	-	3.5 %

Mae'r presenoldeb yn rhagori ar ganrannau cyfartalog yr ysgolion yng Ngwynedd ac ar draws Cymru ac yn well na'r targed o 96% a osodwyd gan yr ysgol. Mae'r ysgol yn targedu presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015-16 o 96.5% neu'n well.

CWRICWLWM

Yn unol â gofynion Ddeddf Addysg 1986 mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm secwlar. Dehongli gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisïau presennol yr Awdurdod.

Mae'r cynllun sydd yn cael ei ddefnyddio yn Ysgol Gymuned Penisarwaun wedi ei seilio ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r ffordd mae'n cael ei weithredu er mewn sicrhau bod yr addysg sydd yn cael ei gynnig i'r disgyblion yn cyfarfod ac amcanion yr ysgol.

Yr amcanion cwricwlaidd mae Corff Llywodraethol yr ysgol wedi eu mabwysiadu yw bod Ysgol Gymuned Penisarwaun yn creu awyrgylch, cyfleoedd, ac adnoddau fydd yn:

- 1 creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall y disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill ac i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau/donau a datblygu i'w lawn neu lawn botensial.
- 2 cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr Awdurdod, y gymdeithas a'r unigolyn.
- 3 cymhwyso'r plentyn:
i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, a bod yn ymwybodol o'r etifeddiaeth Gymreig, i gyfrannu i'r gymdeithas, i dderbyn oddi wrth y gymdeithas, ac i fyw yn gytûn yn y gymdeithas.
- 4 eu paratoi i fod yn ddinasyddion cyfrifol.

Er mwyn hybu'r amcanion yma bydd yr ysgol yn ceisio:

- 1 Datblygu sgiliau llefaredd, llythrennedd a rhifedd y plentyn ar yr un pryd a meithrin chwilfrydedd, dychmyg a diddordeb y plentyn.
- 2 Cynyddu gwybodaeth a datblygu gallu rhesymu'r plentyn fel ei fod ef neu hi yn hyderus wrth ddelio a phrosesau a thechnegau newydd, ac yn gallu byw yn hapus a llwyddiannus mewn byd sydd yn newid drwy'r amser.
- 3 Creu'r awydd ym mhob plentyn i fod eisiau dysgu a phrofi pethau newydd yn ystod ei fywyd, a datblygu synnwyr moesol ac ysbrydol .
- 4 Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn galluogi'r plentyn i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
- 5 Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden .
- 6 Trin a darparu ar gyfer pob plentyn fel unigolyn sydd yn haeddu sylw arbennig.
- 7 Cyflwyno syniadau a chysyniadau mewn dull sydd yn fywiog a deinamig er mwyn dal sylw a chadw diddordeb y plant.
- 8 Meithrin cysylltiad iach rhwng ysgol a chymdeithas, gan ystyried yr ysgol fel sefydliad sy'n rhan o'r gymdeithas leol.
- 9 Meithrin ymdeimlad o falchder yn yr ysgol, ei disgyblion, athrawon a'i chyfraniad i'r gymdeithas.

Mae'r ysgol wedi cynllunio'r cwricwlwm gan ddilyn awgrymiadau Cyngor Cwricwlwm Cymru ar bynciau craidd a phynciau sylfaen.

Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, addysgir y plant ar draws y saith maes dysgu:

1. Datblygiad Llythrennedd
2. Datblygiad Mathemategol
3. Datblygiad Personol a Chymdeithasol
4. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
5. Datblygiad Creadigol
6. Datblygiad Corfforol
7. Y Cwricwlwm Cymreig

Ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, addysgir y pynciau craidd a'r pynciau sylfaen.

Y pynciau craidd yw **Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, a Gwyddoniaeth.**

Y Pynciau sylfaen yw **Technoleg, Hanes, Daearyddiaeth, Celf, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, a Thechnoleg Gwybodaeth.**

Mae'r pynciau'n cael eu cyflwyno i'r plant drwy ddilyn themâu penodol o fewn y dosbarth sydd yn arwain at weithgareddau a phrofiadau ym mhob maes. Mae'r athrawon yn cofnodi cyfraniad pob 'pwnc' i'r thema mewn ffordd systematig er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn addysg gyflawn o fewn y cwricwlwm. Ar rai adegau bydd pynciau fel Mathemateg, Iaith, Cerdd ac Addysg Grefyddol yn cael eu dysgu tu allan i'r brif thema.

ADDYSG GREFYDDOL

Mae Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu i holl blant yr ysgol ac mae disgwyl i bob plentyn gymryd rhan yn y cyd-addoli oni bai bod rhiant yn eithrio' plentyn o'r gwersi a/neu gyd addoliad boreol. Os yw plentyn yn cael ei eithrio bydd trefniadau addas yn cael eu gwneud. Nid oes gan yr ysgol gysylltiad uniongyrchol a ffurfiol gydag unrhyw enwad crefyddol penodol.

ADDYSG ARBENNIG

Ceir polisi ADY gweithredol a chyflawn o fewn yr ysgol a ddiweddarwyd i ddilyn Cod Ymarfer AAA Cymru a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2002. Bydd pob disgybl ag ADY yn dilyn y cwricwlwm gyda disgyblion eraill. Os cyfyd anawsterau, yna :

- Rhoddir sylw unigol o fewn y dosbarth
- Paratoi gwaith gwahaniaethol gan yr athro dosbarth a'r athrawes AAA
- Trefnir cydweithio a phlant eraill
- Ymgynghorir gydag asiantaethau cynhaliol
- Cynhelir trafodaethau gyda rhieni

Llunnir Cynllun Addysgu Unigol ar y cyd rhwng athro dosbarth a'r athrawes ADY ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd ar y gofrestr. Cynhelir adolygiadau ar gynnydd disgyblion yn dymhorol; trwy drafodaethau rhwng rheini a'r athrawon, cydgysylltydd ADY gan roi ystyried a phwyslais ar gyfraniad y disgybl.

Mr. Llŷr Rees yw'r cydgysylltydd ADY. Miss Phyllis Ellis yw'r llywodraethwr sy'n gyfrifol am ADY. Bydd y pennaeth yn gyfrifol am oruchwylio'r drefn o fewn yr ysgol. Ein Seicolegydd Addysg yw Ms. Elenid Glyn.

Cedwir cofrestr o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, gyda'r enwau priodol wedi eu gosod yn y cyfnodau priodol, yn unol â chyfarwyddiadau'r Awdurdod sydd yn dilyn y Côd Ymarfer 2002. Cedwir cofnod o Gynllun Unigol ar gyfer bob plentyn ar y rhestr ADY. Mae nifer o'r disgyblion yn derbyn cymorth un i un yr wythnos gan yr Awdurdod.

PLANT AR Y GOFRESTR Haf 2015	
CAM ADY	NIFER AR Y GAM
GWEITHREDU YSGOL	12
GWEITHREDU YSGOL A MWY	3
3*/DATGANIAD	
CYFANSWM	1

DATBLYGIAD PROFFESIYNOL

Mae staff yr ysgol wedi mynychu ystod eang o gyrsiau a hyfforddiant mewnol dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys:- Rhifedd, Iaith, Asesu, ELKLAN, dyslecsia, addysg gorfforol, gwyddoniaeth, Educare (cwrs amddiffyn plant i'r holl staff). Mae'r hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau yn yr Ysgol.

CANLYNIADAU

Dyma ganlyniadau'r ysgol am y flwyddyn 2015. Mae'n dangos y % ar bob deilliant/lefel .

CYFNOD SYLFAEN

Disgwylir i'r mwyafrif o blant gyrraedd Deilliant 5 a Deilliant 6 yn y prif feysydd (Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Datblygiad Mathemategol, Datblygiad Llythrennedd) erbyn diwedd Blwyddyn 2.

	% Yn cyrraedd o leiaf Deilliant 5 erbyn diwedd Bl.2			
	Ysgol	Teulu	Gwynedd	Cymru
Datblygiad Personol a Chymdeithasol	100	98.7	93.4	94.1
Datblygiad Mathemategol	100	96.1	89.7	88.7
Datblygiad Llythrennedd	100	90.8	89.4	89.8

	% Yn cyrraedd o leiaf Deilliant 6 erbyn diwedd Bl.2			
	Ysgol	Teulu	Gwynedd	Cymru
Datblygiad Personol a Chymdeithasol	100	84.4	60.0	51.4
Datblygiad Mathemategol	75	27.3	32.5	30.3
Datblygiad Llythrennedd	50	42.1	37.1	32.5

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Disgwylir i'r mwyafrif o blant gyrraedd Lefel 4 neu Lefel 5 yn y 4 pwnc craidd (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth) erbyn diwedd Blwyddyn 6.

	% Yn cyrraedd o leiaf Lefel 4 erbyn diwedd Bl.6			
	Ysgol	Teulu	Gwynedd	Cymru
Cymraeg	100	92.6	88.3	88.1
Saesneg	88.9	89.7	89.2	88.4
Mathemateg	100	94.1	88.6	88.9
Gwyddoniaeth	100	95.6	91.3	90.3

	% Yn cyrraedd o leiaf Lefel 5 erbyn diwedd Bl.6			
	Ysgol	Teulu	Gwynedd	Cymru
Cymraeg	44.4	42.6	35.7	33.9
Saesneg	55.5	45.6	37.5	38.0
Mathemateg	77.7	47.1	37.9	38.0
Gwyddoniaeth	66.6	48.5	39.1	38.4

TARGEDAU

Mae'r ysgol yn gosod targedau unigol a heriol ar gyfer pob disgybl er mwyn gweithio tuag at ein nod o ddatblygu pob plentyn hyd eithaf eu gallu. Mae'r targedau'n cael eu monitro'n gyson ac yn cael eu haddasu yn ôl yr angen. Defnyddir ystod o ddulliau ar gyfer gosod targedau: profion safonol, asesiadau ffurfiannol a thrafodaeth gyda'r plentyn.

CYFNOD SYLFAEN

	% Yn cyrraedd o leiaf Deilliant 5 erbyn diwedd Bl.2		
	2016	2017	2018
Datblygiad Personol a Chymdeithasol	100	100	100
Datblygiad Mathemategol	80	100	100
Datblygiad Llythrennedd	80	100	100

CYFNOD ALLWEDDOL 2

	% Yn cyrraedd o leiaf Lefel 4 erbyn diwedd Bl.6		
	2016	2017	2018
Cymraeg	85.7	85.7	100
Saesneg	85.7	85.7	100
Mathemateg	85.7	100	100
Gwyddoniaeth	85.7	100	100

CYLLIDEB YR YSGOL 2014-15

Dyrannwyd arian i'r ysgol gan y Cyngor Sir yn flynyddol ac fe'i defnyddiwyd i'r ysgol fel a ganlyn yn ystod 2015-16:-

GWARIANT

Staffio	£164405
Adeiladau	£ 30005
Cyflenwadau/Gwasanaethau	<u>£ 50133</u>
CYFANSWM GWARIANT	<u>£244543</u>

Ariannwyd y gwariant uchod fel a ganlyn:-

INCWM

Dyraniad gan y Cyngor	£205391
Grant Cyfnod Sylfaen	£ 23625
Incwm Arall	£ 1300
Defnydd Arian Wrth Gefn	<u>£ 14227</u>
CYFANSWM INCWM	<u>£244543</u>

GWYBODAETH I RIENI.

Cyhoeddir llawlyfr gwybodaeth i rieni plant sy'n mynychu'r ysgol am y tro cyntaf sy'n cynnwys gwybodaeth am drefniadaeth yr ysgol. Diweddarwyd y llawlyfr yn barhaus i'w gadw'n gyfredol. Llythyrir y rheini am unrhyw wybodaeth angenrheidiol.

GWEITHGAREDDAU/ YMWELIADAU o FEDI 2014- GORFFENNAF 2015

- **Gwersi Offerynnol** - Mae 16 o blant o Fl.2-6 yn derbyn gwersi yn yr ysgol bob wythnos.
- **Ffair Lyfrau Scholastic** - Cyngor Ysgol wedi trefnu ffair lwyddiannus iawn.
- **Nofio** - 33 o blant Bl.2-6 yn cael gwersi nofio wythnosol. Safon gyffredinol yn dda iawn.
- **Lori Llyfrgell** - cyfle i'r plant ddewis llyfrau o *Lori Ni*
- **Andrew Settatree** - wedi bod yn yr ysgol i gynnal gwasanaeth boreuol
- **Twrnament Pêl Rwyd** - aeth rhai o blant Bl.5/6 i dwrnament pêl rwyd yng Nghanolfan Brailsford, Bangor yn ddiweddar. Cafwyd llwyddiant ysgubol gyda'r garfan yn ennill 7 gem allan o 7.
- **Gwasanaeth Childline** - cafodd Fl.5/6 gyflwyniad i waith Childline gan Fiona Goodman, Swyddog Ysgolion
- **Tîm Ynni** - mae Tîm Ynni wedi ei ethol yn yr ysgol a'r plant yn brysur iawn yn sicrhau nad yw goleuadau a chyfrifiaduron ymlaen heb fod angen!
- **Gwynant Parri** - tynnu lluniau unigol.
- **Gala Nofio** - plant Bl.3-6 wedi cymryd rhan yn y gala ar gyfer ysgolion ardal Arfon ac wedi llwyddo, fel tîm, i ddod yn ail.
- **Pêl-droed Urdd** - plant Bl.5/6 wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth yng Nghanolfan Arfon
- **Andrew Settatree** - wedi bod yn yr ysgol i gynnal gwasanaeth boreol
- **Twrnament Pêl Rwyd** - rownd derfynol ar gyfer Ysgolion Gwynedd. Daeth yr ysgol yn bedwerydd drwy'r sir.
- **Gŵyl Athletau Dan Do** - daeth y tîm yn bedwerydd mewn cystadleuaeth uchel iawn ei safon
- **Ymweliad Ysgol Brynrefail** - plant Bl.6 wedi bod yn ymweld am y diwrnod
- **Angueddfa Lloyd George** - plant Bl.Derbyn, 1 a 2 wedi bod yn ymweld â'r angueddfa
- **Cwmni Da** - ffilmio plant yn canu carolau Nadolig
- **Cyngerdd Nadolig** - sioe hynod o dda!
- **Cinio Nadolig yr Ysgol** - plant wedi cael gwledd go iawn. Diolch mawr i'r staff arlwygo.

- **Pantomeim Sinderela** - pob un disgybl wedi bod yn gweld y Sioe yn Venue Cymru. Anodd gwybod pwy oedd wedi mwynhau'r mwyaf - y plant ynt'e'r oedolion!
- **Ffair Nadolig** - ysgol a'r Cyfeillion wedi cydweithio i gynnal noson lwyddiannus iawn.
- **Gweithdy Bwlio** - Bl.3-6 wedi ei gyflwyno gan Burman's Martial Arts
- **PC Dylan Pritchard** - siarad gyda'r plant am beryglon cyffuriau.
- **Gwasanaeth Tan** - siarad gyda'r plant am ddiogelwch yn y cartref
- **Rhedeg Traws Gwlad, Y Faenol** - perfformiadau arbennig o dda gan nifer o blant yn y gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Gwynedd, Môn a Chonwy
- **Andrew Settatree** - wedi bod yn yr ysgol i gynnal gwasanaeth boreol
- **Sesiynau Adeiladu Tim** - Burman's Martial Arts wedi bod yn cyflwyno cyfres o weithgareddau gyda phlant Bl.3-6.
- **Gwersi Beicio** - plant Bl.5/6 wedi llwyddo i gyrraedd Lefel 2
- **Canolfan Bwdhaeth** - plant Bl.3-6 wedi bod yn ymweld â'r ganolfan yn Llandudno, taith wedi ei chynllunio gan y fyfyrwraig o dan oruchwyliaeth
- **Diwrnod Darganfod Gwyddoniaeth** - Bl.3-6 wedi bod ar weithdy yn ymwneud a'r gofod
- **Fferm i'r Fforc** - Ysgol gyfan wedi bod ar ymweliadau a Tesco, dysgu am sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a'r daith at silffoedd yr archfarchnad
- **PC Dylan Pritchard** - siarad gyda'r plant am ddiogelwch personol
- **Taith Gerdded** - Bl.3-6 wedi bod ar daith o amgylch Llyn Padarn.

CYSYLLTIADAU Â'R GYMUNED

- **Cynllun Dillad Antur Waunfawr** - cynllun yn parhau i fod yn llwyddiant ac elw o £145.50 wedi ei gynhyrchu dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf
- **Ffair Lyfrau Scholastic** - Cyngor Ysgol wedi trefnu ffair lyfrau gyda gwahoddiad agored i rieni ayyb. Plant wedi cael cyfle i brynu llyfrau o ddewis eang a phriodol - ysgol wedi llwyddo i ddenu £97 o gomisiwn hefyd.
- **Ffair Nadolig** - gyda chydweithio effeithiol a'r Cyfeillion, cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn gydag elw o bron i £400 ar y noson
- **Pnawn Wasael** - cyfle i ganu carolau Nadolig a bwyta ambell fins pei. Diolch i Bwyllgor y Gymuned am drefnu.
- **Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi** - cyfle i'r plant gyfrannu at y gwasanaeth a drefnwyd gan Bwyllgor y Gymuned.
- **Miri Mai** - plant yr ysgol wedi cymryd rhan yn nigwyddiadau'r noson

DATBLYGU CHWARAEON / GWEITHGAREDDAU CORFFOROL

Mae chwaraeon yn cyflawni rôl holl bwysig ym mywyd plant yr ysgol ac, yn wir, y safon yn cynyddu'n gyson. Dros y flwyddyn academaidd 2014-15, mae'r Ysgol wedi darparu'r cyfleoedd canlynol yn ychwanegol i'r ddarpariaeth arferol drwy'r gwersi addysg gorfforol:-

- Cystadlu mewn gŵyl athletau dan do
- Cystadlu mewn gŵyl rhedeg draws gwlad
- Taith Gerdded o amgylch Llyn Padarn
- Rhedeg y Trac. Mae'r plant yn cael cyfle dyddiol (pan fod y tywydd yn caniatáu) i redeg am gyfnod o amgylch y trac rhedeg ar fuarth yr ysgol
- Gwersi Nofio gan gynnwys cymryd rhan mewn gala

POLISIÂU

Mae'r ysgol yn llunio ac adolygu polisiâu yn ystod y flwyddyn addysgol gan gyflwyno unrhyw newidiadau i bolisiâu presennol gerbron y Llywodraethwyr i'w trafod a'u derbyn, gan wneud yn yr un modd gyda pholisiâu newydd. Gall rhiant ofyn am gopi o unrhyw bolisi gan yr ysgol.

GWEITHREDU AC ADOLYGU STRATEGAETHAU YSGOL

Mae pob strategaeth a ddefnyddir gan yr ysgol yn agored i'w drafod gan y Llywodraethwyr ymhob cyfarfod. Bydd unrhyw strategaeth a ddefnyddir o'r newydd yn gorfod derbyn sêl bendith y Llywodraethwyr cyn ei weithredu.

CYFARFODYDD RHINI

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethu trwy ddeiseb. Darperir crynodeb byr isod. Rhaid i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn y ddeiseb, cyn belled â bod:

1. llofnodion yr isafswm angenrheidiol o rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y ddeiseb, sef yr isaf o'r canlynol:

(a) rhieni 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu

(b) rhieni 30 o ddisgyblion cofrestredig².

2. rhaid i'r cyfarfod y mae'r rhieni wedi gofyn amdano drafod mater yn berthynol i'r ysgol.

3. ni chynhelir mwy na thri chyfarfod yn ystod y flwyddyn y mae'r ddeiseb gyntaf wedi'i derbyn ynddi

4. mae digon o ddyddiau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod.

Mae'r cyfarfod yn agored i holl rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y pennaeth ac unrhyw bersonau eraill a wahoddir gan y corff llywodraethu. Cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu holl rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol mewn ysgrifenedig am ddyddiad y cyfarfod a'r mater i'w drafod

Darperir gwybodaeth fanwl bellach ar y gofynion statudol ar gyfer y cyfarfodydd hyn, deisebau a'r broses i gynnal y cyfarfodydd yng Nghnallaw Llywodraeth Cymru ar Gyfarfodydd i Rieni: canllaw statudol i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ynghylch y ddyletswydd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni.

<http://www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau/2013/05/09/cyfarfodydd-rhieni-canllawiau-statudol/>

Y DREFN GWYNO

Cam 1

Dylid gwneud cwyn, yn y lle cyntaf, i aelod o staff neu lywodraethwr ar lafar neu'n ysgrifenedig. Os na fydd y sawl sydd yn gwneud y gŵyn yn teimlo fod yr ysgol wedi ymdrin â'r gŵyn yn foddhaol, dylid symud ymlaen at Gam 2.

Cam 2

- Cŵyn ysgrifenedig at y pennaeth
- Fe fydd y pennaeth yn penderfynu sut i weithredu ac efallai'n cyfeirio'r gŵyn at yr Is-bwyllgor perthnasol
- Fe fydd y pennaeth yn ysgrifennu at y sawl sydd wedi codi'r gŵyn i nodi sut fydd yr Ysgol yn gweithredu (os fydd angen gwneud hynny)

Cam 3

Mae hawl i apelio yn erbyn y camau gweithredu yng Ngham 2 gan gyfeirio'r apêl at Gadeirydd y Llywodraethwyr

Cam 4

Os yw'r gŵyn yn parhau heb ei datrys, dylid cyfeirio cwyn ffurfiol yn uniongyrchol i'r Awdurdod Addysg.

CYDNABYDDIAETH

Dymuna'r Corff Llywodraethu ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith cydwybodol yn ystod y flwyddyn a diolchir hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth gyson.

Dymuna'r Pennaeth ddiolch i'r Llywodraethwyr am eu cymorth parod a'u hymroddiad i weithredu ethos yr Ysgol.

Gobeithio bod yr adroddiad hwn wedi bod o ddiddordeb ac yn gymorth i chwi werthfawrogi'r gwaith a wneir gan y Llywodraethwyr.